**Dacrocystorhinostomi Endoscopig (DCR)**

**Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o’r Ysbyty**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES

## Cyngor wrth gael eich rhyddhau o’r ysbyty yn dilyn Dacrocystorhinostomi Endoscopig

Yn dilyn yr anesthetig dylech ddilyn diet ysgafn ac osgoi diodydd pefriog am y dydd i atal salwch. Dylech fynd adref yn syth o'r ysbyty a gorffwys am 2 ddiwrnod.

### Gweithgareddau dydd i ddydd

Argymhellir eich bod yn cymryd 2 wythnos i ffwrdd o'r gwaith ar ôl y lawdriniaeth. Dylid osgoi ymarfer corff neu weithredu peiriannau trwm yn ystod y cyfnod hwn. Gellir darparu nodyn salwch cyn i chi gael eich rhyddhau - bydd angen i chi wneud cais am hyn. Fe'ch cynghorir hefyd i gadw draw o amgylcheddau myglyd neu lychlyd a lleoedd gorlawn er mwyn ceisio osgoi haint.
Ceisiwch osgoi diodydd poeth iawn, prydau bwyd poeth iawn a baddonau neu gawodydd poeth iawn am bythefnos ar ôl y lawdriniaeth i atal gwaedu trwyn. Peidiwch â chwythu'ch trwyn, a thisian gyda'ch ceg ar agor yn ystod y cyfnod hwn. Fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r gorau i ysmygu gan fod hyn yn amharu ar allu’r corff i wella ac yn cyfrannu at symptomau trwynol parhaus. Gall staff roi cysylltiadau cymorth i chi er mwyn eich helpu i roi'r gorau iddi.

### Poen

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn teimlo rhywfaint o anesmwythdra yn y trwyn am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y lawdriniaeth. Dylai cyffuriau lleddfu poen syml a gymerir yn rheolaidd, fel paracetamol, leddfu'r anesmwythdra. Bydd staff nyrsio yn trafod meddyginiaeth gyda chi cyn i chi gael eich rhyddhau o’r ysbyty. Os yw'r boen yn eich trwyn yn cynyddu neu os bydd pen y trwyn yn dynner i’w gyffwrdd neu’n chwyddo, cysylltwch â'r ysbyty neu'ch meddyg teulu am gyngor.
Fel arfer gosodir tiwb plastig yn y dwythellau dagrau yng nghornel eich llygad i gadw'r llwybr draenio ar agor wrth iddo wella. Gall hyn achosi rhywfaint o anghysur a llid cychwynnol i'r llygaid ond mae hyn fel arfer yn setlo'n gyflym. Mae'n bwysig osgoi rhwbio'ch llygad gan y gall hyn ychwanegu at y llid a rhyddhau'r tiwb. Os bydd y llid yn parhau am fwy na 2 ddiwrnod neu os bydd y tiwb yn dod yn rhydd, cysylltwch â'r ysbyty am gyngor.

**Clwyf**

Efallai y bydd gennych redlif dyfrllyd gydag ychydig o waed ynddo yn dod o'ch trwyn. Bydd eich trwyn hefyd yn teimlo wedi'i rwystro gan y bydd wedi chwyddo ar ôl y lawdriniaeth. Mae hyn yn rhan normal o'r broses o wella a gall bara hyd at 4 wythnos ar ôl y lawdriniaeth. Os bydd gwaedu'n digwydd, pinsiwch eich trwyn yn ofalus, pwyso ymlaen a rhoi iâ arno. Os na fydd y gwaedu'n stopio ar ôl 20 munud, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.
Os byddwch yn dechrau gweld rhedlif tebyg i grawn (melyn-wyrdd) yn dod o'ch trwyn neu'ch llygad dylech gysylltu â'r ysbyty neu'ch Meddyg Teulu am gyngor. Gall crystiau a chrachenni ddatblygu y tu mewn i'ch trwyn. Ceisiwch osgoi pigo'r rhain gan y gall hyn achosi gwaedu a gall amharu ar eich gwellhad. Efallai y cewch eich cynghori i olchi eich trwyn â dŵr halen a bydd staff yn eich cynghori ar hyn ac yn darparu gwybodaeth ar wahân i chi fynd adref gyda chi. Os oes gennych unrhyw ddresin hydawdd y tu mewn i'ch trwyn bydd staff yn eich cynghori ar ffyrdd i annog y dresin i doddi. Efallai y byddwch hefyd yn cael presgripsiwn am wrthfiotigau, hufenau, chwistrellau neu ddiferion ar gyfer eich trwyn a/neu'ch llygad yn dilyn y lawdriniaeth. Bydd eich llawfeddyg yn esbonio hyn yn fanwl cyn i chi gael eich rhyddhau.

**Camau Dilynol:**

Fel arfer bydd angen i chi gael eich gweld gan eich ymgynghorydd yn y clinig 6-8 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth. Mae'r tiwbiau'r dwythell dagrau'n cael ei dynnu, fel arfer, yn y clinig, ar y pwynt yma hyn o bryd, felly mae'n bwysig iawn eich bod yn mynychu. Bydd manylion yr apwyntiad hwn yn cael ei bostio atoch chi.

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00/dros nos**: Ward C0 ar 01633493926

**Wedi 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 ar 01633 493609.

**GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English"**